

Cariad di-amod

“Gyfeillion annwyl, os yw Duw wedi ein caru ni fel hyn, fe ddylem ninnau hefyd garu ein gilydd.” (adn. 11)

Beth am ddarllen 1 Ioan 4:7–21 ac yna myfyrio

Ddoe, fe welwyd sut mae adnabod cariad Duw tuag atom ni yn ehangu ein gorwelion ni. Yr wyf wedi eistedd mewn sesiynau cyngori yng nghwmni gweithiwyd Cristnogol droeon ac, wrth rannu gyda nhw, yn dod i sylweddoli fod eu gwasanaeth yn aml yn cael ei staenio â chariad at yr hunan. Yn fynych iawn, mae cariad Cristnogion yn medru bod yn gariad amodol. Dywedodd un cenhadwr wrthyf unwaith: “Roeddwn yn caru er mwyn peri trôedigaethau. Dyma fy agwedd: “Rhannwch fy ffydd, fy nghredo yn Nuw, dilynwch ef, gwasanaethwch ef yn yr un modd ag yr wyf fi yn ei wasanaethu, ac yna fe fyddaf yn eich caru.” Gall hyd yn oed cariad mam – y peth agosaf i gariad y nefoedd a welwch chi ar y ddaear – fod yn ddim byd mwy na gorthrwm os yw yn cyfyngu ar ryddid y plentyn i dyfu ac i aeddfedu fel person annibynnol.

Nid yw cariad Duw yn debyg i hyn. Mae'n ein caru heb unrhyw amod, heb unrhyw fargen. Mae angen i'r rhai sydd am wasanaethu Iesu Grist ddysgu i garu pobl yn gwbl ddi-amod. Ni ddylem garu pobl er mwyn eu hatal rhag goryfed, eu caru er mwyn eu gweld yn mynychu ein capel, neu hyd yn oed er mwyn eu gweld hwy yn caru Duw fel taliad am ein cariad ni. Rhaid inni garu pobl fel ag y maent, yn ddi-amodol a pharhau i'w caru hyd yn oed pan fyddant yn gwrthod yr Efengyl yr ydym ni'n ei phregethu, hyd yn oed pan fyddan nhw yn ein cyhuddo o wneud pethau sydd yn eu golwg hwy yn annerbyniol.

Yn ein perthynas ag eraill, rhaid inni ddilyn y patrwm o gariad y mae Duw wedi ei ddefnyddio gyda ni, sef caru yn ddi-amodol. Nid yw y llwybr hwn yn un rhwydd. Fe arweiniodd y llwybr hwn ein Harglwydd at y groes, a thros y canrifoedd, arweiniwyd llawer o ferthyron i'r stanc oherwydd hyn. Ond does dim cyfaddawdu, cariad, a chariad yn unig, yw ein rheol. Cariad heb reswm sy'n achub.

Beth am fynd ymlaen i ddarllen:

Luc 23:8–46; Rhuf. 5:6–8

Meddyliwch am y cwestiynau hyn:

1. Sut fu i Iesu arddangos cariad di-amod?
2. Cymherwch gariad dynion a chariad Duw.

Gweddi

O Dad, trwy dy ras a'th gymorth, yr wyf yn bwriadu caru fel ag yr wyt ti wedi fy ngharu i. Paid â chaniatáu i unrhyw beth amharu ar fy awydd. Paid â chaniatáu i bechod, i falchder i ddod ar draws fy nghyfrifoldeb a'm dymuniad i ganiatáu i'th gariad di ddod drwodd. Er mwyn Iesu. Amen.